Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

**<u>SWYDDOG DYSGU A DATBLYGU (SGILIAU CYFFREDINOL A CHYNHWYSIAD)</u>**

**Rhif y Swydd: 503164**

**CYFLOG: £26,999- £28,785**

**GRADD: 9**

**37 awr yr wythnos**

**(bydd pob swydd yn ddibynnol ar werthusiad swydd)**

Mae swydd barhaus barhaol wedi codi ar gyfer Swyddog Dysgu a Datblygu (Sgiliau cyffredinol a Chynhwysiad) o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Wedi'i leoli ym mhencadlys SWFRS yn Llantrisant, mae'r swydd wag hon yn 37 awr, ond byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw un sy'n dymuno gweithio 4 diwrnod yr wythnos yn unig yn gyfle cyffrous i Hyfforddwr/gweithiwr proffesiynol Dysgu a Datblygu profiadol ymuno â thîm gwych sydd ar hyn o bryd yn ceisio trawsnewid y cyfleoedd datblygu i'r holl weithwyr ar draws y Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant yn ogystal â datrysiadau proffesiynol dysgu, datblygu ac ymgysylltu i weithwyr GTADC gydol eu gyrfaoedd gan gynnwys ymgynefino a llwybrau datblygu. Yn ogystal â hyn, bydd y swydd yn canolbwyntio ar hyfforddiant cynhwysiad a digwyddiadau ymgysylltu, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau tîm yn cynyddu ac yn hyrwyddo cynlluniau ymgysylltu gweithwyr yn ogystal â Chynllun Tân Cynhwysol y Gwasanaeth. Rhaid bod ymgeiswyr llwyddiannus felly'n dangos sgiliau cynllunio a chyflwyno ardderchog yn ogystal â brwdfrydedd i yrru diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol ar draws y Gwasanaeth.

**Sylwer nad yw'n bosib cyflawni'r rôl hon ar sail secondiad na rhannu swydd.**

Oherwydd natur y swydd gofynnir i'r unigolyn weithio fin nos neu ar benwythnosau weithiau a bydd rhywfaint o deithio ar draws ardal GTADC yn ofynnol. Mae'r gallu i deithio'n annibynnol yn ofynnol.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â ffurflen gais o dudalen Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu â Serena Ford **(Rheolwr AD - Dysgu & Datblygu)** drwy e-bostio **<u>s-ford@decymru-tan.gov.uk</u>**.

---

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law i personél@decymru-tan.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Dydd Mercher y 12$^{fed}$ o Chwefror 2020 am 23.59.** Cynhelir cyfweliadau **yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 17$^{eg}$ o Chwefror 2020**.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. Gallai fod angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban a gallai fod angen ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni ymdrinir â ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio